# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 25 Tachwedd 2024

## SL(6)546 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2024

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") yn darparu bod categorïau penodol o bersonau o dramor yn gymwys neu'n anghymwys i gael dyraniad o lety tai.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2014 i estyn cymhwystra i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai a ddarperir gan awdurdodau lleol i bobl sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n ddioddefwyr cefnu ar briodas trawswladol. Mae cefnu ar briodas trawswladol yn fath o gam-drin domestig sy'n cynnwys ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol. Mae'n cyfeirio at arfer pan fo'r partner noddi neu aelodau o'i deulu yn cefnu ar briod sy'n ddibynnol ar fisa neu'n ei adael dramor, fel arfer heb unrhyw adnoddau ariannol, fel arfer gyda'r nod o'i atal rhag dychwelyd i'r DU.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud yr unigolion hynny y mae eu hamod heb ddibynnu ar gronfeydd cyhoeddus wedi ei ddileu gan y Swyddfa Gartref yn gymwys i gael dyraniad o lety tai a chymorth digartrefedd yng Nghymru. Mae amodau heb ddibynnu ar gronfeydd cyhoeddus yn gyffredinol yn gwneud unigolion yn anghymwys i hawlio budd-daliadau a chredydau penodol a ddarperir gan y Wladwriaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau 2014 i ddileu cyfeiriadau diangen at Reoliadau Ymaelodaeth Croatia (Mewnfudo ac Awdurdodi Gweithwyr) 2013.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Tai 1996, Deddf Tai (Cymru) 2014

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 20 Rhagfyr 2024


Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 25 Tachwedd 2024

## SL(6)547 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2024

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bilio yng Nghymru dalu cyfraniadau ardrethi annomestig i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992") yn rhagnodi'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau ardrethi annomestig hyn.

Gwneir diwygiadau yn flynyddol i Atodlen 4 i Reoliadau 1992 sy'n nodi'r ffigurau poblogaeth oedolion ar gyfer pob awdurdod bilio i sicrhau bod y sail ar gyfer cyfrifo cyfraniadau oddi wrth awdurdodau bilio i'r gronfa ardrethi yn dal yn gyfredol. Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru'r ffigurau poblogaeth oedolion yn yr Atodlen honno.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlenni 1 a 2 i Reoliadau 1992, sy'n cynnwys mân newidiadau sy'n cael yr effaith o drin rhyddhad dewisol ar gyfer clybiau chwaraeon amatur cymunedol ("CASCs") yn yr un ffordd ag ar gyfer elusennau, at ddibenion didyniadau o gyfraniadau.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, Deddf Lleoliaeth 2011

**Fe'u gwnaed ar:** 11 Tachwedd 2024

**Fe'u gosodwyd ar:** 13 Tachwedd 2024

**Yn dod i rym ar:** 31 Rhagfyr 2024